OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 899 (Cy.119)

CARTREFI SYMUDOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Awdurdodaeth Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - -	*20 Mawrth 2012*
Yn dod i rym - -	*21 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 229(3) a (4) a 250(2) o Ddeddf Tai 2004(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo yn unol ag adran 250(6) o Ddeddf Tai 2004 a pharagraff 34 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Awdurdodaeth Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl) (Cymru) 2012 a daw i rym ar 21 Mawrth 2012.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1983" ("*the 1983 Act*") yw Deddf Cartrefi Symudol 1983(**2**); ac

ystyr "y dyddiad cychwyn" ("*the commencement date*") yw'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym.

Awdurdodaeth tribiwnlysoedd eiddo preswyl mewn perthynas â chartrefi symudol

2. Mae'r awdurdodaeth o dan Ddeddf 1983 a bennir yn rhinwedd y diwygiadau a wnaed i'r Ddeddf honno ac i Ddeddf Tai 2004 gan y Gorchymyn hwn wedi ei rhoi i dribiwnlys eiddo preswyl.

Diwygio Deddf 1983

3.—(1) Mae Deddf 1983 wedi ei diwygio yn unol â'r paragraffau canlynol.

(2) Yn adran 1(5) a (6) (manylion cytundebau) yn lle "court" rhodder "appropriate judicial body".

(**1**) 2004 p. 34. Mae'r pwerau a roddwyd gan adran 229(3) a (4) o Ddeddf Tai 2004 yn arferadwy, yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan Weinidogion Cymru. *Gweler* y diffiniad o'r "appropriate national authority" yn adran 261(1) o Ddeddf 2004.

(**2**) 1983 p. 34. Mae Deddf 1983 yn rhychwantu Cymru a Lloegr a'r Alban. Mae wedi ei diwygio'n sylweddol, o ran Cymru a Lloegr, gan adrannau 206 i 208 o Ddeddf Tai 2004 a chan Orchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3151 (Cy.268)) o ran Cymru.

(3) Yn adran 2 (telerau cytundebau) yn is-adrannau (2), (3) a (4) yn lle "court", pryd bynnag y mae'n ymddangos, rhodder "appropriate judicial body".

(4) Yn adran 2A (pŵer i ddiwygio telerau ymhlyg) yn is-adran (3)(a) ar ôl "the court", yn y ddau le, mewnosoder "or a tribunal".

(5) Yn adran 4 (awdurdodaeth tribiwnlys neu'r llys: Cymru a Lloegr)—

(a) yn is-adrannau (1) a (3), ar ôl "England" mewnosoder "or in Wales";

(b) hepgorer is-adran (7).

(6) Yn is-adran (1) o adran 5 (dehongli)—

(a) o flaen y diffiniad o "the appropriate national authority" mewnosoder—

> ""the appropriate judicial body" means whichever of the court or a tribunal has jurisdiction under section 4;",

(b) ar ôl y diffiniad o "the appropriate national authority" mewnosoder—

> ""arbitration agreement" means an agreement in writing to submit to arbitration any question arising under this Act or any agreement to which it applies;",

(c) yn y diffiniad o "the court" ym mharagraff (a) yn lle'r geiriau o "agreed" i "arbitration" rhodder "entered into an arbitration agreement that applies to the question to be determined", ac

(ch) ar ôl y diffiniad o "protected site" mewnosoder—

> ""a tribunal" means a residential property tribunal(**3**) or, where the parties have entered into an arbitration agreement that applies to the question to be determined and that question arose before the agreement was made, the arbitrator."

(7) Ym Mhennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 (cytundebau sy'n ymwneud â lleiniau yng Nghymru a Lloegr ac eithrio lleiniau yn Lloegr ar safleoedd sipsiwn a theithwyr awdurdodau lleol a safleoedd sipsiwn a theithwyr cynghorau sir)—

(a) ym mharagraff 1 (cyfnod y cytundeb) yn lle "or 6" rhodder "or 5A",

(b) ym mharagraff 4 (terfynu gan y perchennog) yn lle "court" rhodder "appropriate judicial body",

(c) ym mharagraff 5 (terfynu gan y perchennog) yn lle "court" rhodder "appropriate judicial body",

(ch) ym mharagraff 5A, hepgorer is-baragraff (1),

(d) hepgorer paragraff 6,

(dd) ym mharagraff 8 (gwerthu cartref symudol i berson a gymeradwywyd gan y perchennog)—

(i) yn is-baragraff (1E), yn lle "court", pryd bynnag y mae'n ymddangos, rhodder "appropriate judicial body", a

(ii) ar ôl is-baragraff (1G), mewnosoder—

> "(1H) Subject to sub-paragraph (1I), an application to a tribunal under sub-paragraph (1E) by an occupier must be made—
>
> (a) within the period of three months beginning with the day after the date on which the occupier receives notice of the owner's decision under sub-paragraph (1B); or

(**3**) Drwy adran 229 o Ddeddf Tai 2004 (p. 34) caniateir i unrhyw awdurdodaeth tribiwnlys eiddo preswyl gan neu o dan ddeddfiad gael ei harfer gan bwyllgor asesu rhenti sydd wedi ei gyfansoddi'n unol ag Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977 (p. 42).

(b) where the occupier receives no notice from the owner as required b y sub-paragraph (1B), within the period of three months beginning with the date which is 29 days after the date upon which the occupier served the request under sub-paragraph (1A).

(1I) A tribunal may permit an application under sub-paragraph (1E) to be made to the tribunal after the applicable period specified in sub-paragraph (1H) if it is satisfied that, in all the circumstances, there are good reasons for the failure to apply before the end of that period and for any delay since then in applying for permission to make the application out of time."

(e) ym mharagraff 9 (rhodd cartref symudol), yn is-baragraff (2) yn lle "(1G)" rhodder "(1I)",

(f) ym mharagraff 10 (ail-leoli cartref symudol), yn is-baragraffau (1)(a) a (2), yn lle "court" rhodder "appropriate judicial body",

(ff) ym mharagraff 16 (y ffi llain), ym mharagraff (b), yn lle "court" rhodder "appropriate judicial body",

(g) ym mharagraff 17 (adolygu'r ffi llain)—

(i) yn lle "court", pryd bynnag y mae'n ymddangos, rhodder "appropriate judicial body",

(ii) yn is-baragraff (5) hepgorer y geiriau ", in the case of an application in relation to a protected site in England,",

(iii) yn is-baragraff (9) hepgorer y geiriau ", in the case of an application in relation to a protected site in England,", a

(iv) yn is-baragraff (9A) hepgorer y geiriau "in relation to a protected site in England",

(ng) ym mharagraff 18 (penderfynu ffi llain), yn is-baragraff (1)(a)(iii), yn lle "court" rhodder "appropriate judicial body",

(h) ym mharagraff 19 (penderfynu ffi llain), yn is-baragraff (2) hepgorer y geiriau "In the case of a protected site in England,", ac

(i) ym mharagraff 28 (cymdeithas preswylwyr cymwys), yn is-baragraff (1)(h), yn lle "court" rhodder "appropriate judicial body".

(8) Ym mhennawd Rhan 2 o Atodlen 1 (materion y gall telerau gael eu hymhlygu amdanynt gan lys) yn lle "court" rhodder "appropriate judicial body".

Diwygio Deddf Tai 2004

4.—(1) Mae Deddf Tai 2004 wedi ei diwygio yn unol â'r paragraffau canlynol.

(2) Yn adran 230 (pwerau a gweithdrefn tribiwnlysoedd eiddo preswyl) ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) When exercising jurisdiction under the Mobile Homes Act 1983, the directions which may be given by a tribunal under its general power include (where appropriate)—

(a) directions requiring the payment of money by one party to the proceedings to another by way of compensation, damages or otherwise;

(b) directions requiring the arrears of pitch fees or the recovery of overpayments of pitch fees to be paid in such manner and by such date as can be specified in the directions;

(c) directions requiring cleaning, repairs, restoration, re-positioning or other works to be carried out in connection with a mobile home, pitch or the protected site in such manner as may be specified in the directions;